## Am bwy rydym ni'n chwilio

Rydym yn chwilio am ddau Weinyddwr trefnus a rhagweithiol i ymuno â'n tîm Cyllid a Chaffael. Bydd un rôl yn cefnogi ein swyddogaeth Gyllid a bydd un yn cefnogi Caffael, gan ddarparu cymorth gweinyddol o ansawdd uchel, cynnal cofnodion cywir, a helpu darparu gwasanaethau effeithlon sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ar draws Estyn. Rydym yn chwilio am unigolion sy'n rhoi sylw rhagorol i fanylder, yn meddu ar fedrau cyfathrebu cryf, a'r gallu i weithio'n effeithiol mewn amgylchedd prysur a chydweithredol.

**Mae tasgau allweddol yn cynnwys:**

| Cyllid | Caffael |
|---|---|
| • Codi archebion prynu a phrosesu anfonebau cyflenwyr yn gywir ac yn brydlon | • Codi archebion prynu gan sicrhau eu cywirdeb a'u cymeradwyaeth |
| • Cynnal cofnodion cyflenwyr yn unol â rheolaethau | • Cefnogi cydweithwyr â phrosesau caffael |
| • Cefnogi adrodd ariannol a chadw cofnodion | • Cynorthwyo â gweinyddu tendrau a chontractau, yn cynnwys caffael adnoddau arolygu allanol |
| • Cefnogi archwiliadau; darparu dogfennaeth | • Cefnogi ymgyrchoedd caffael; sicrhau y cedwir at reolau a rheoliadau caffael wrth eu cyflawni |
| • Ymdrin â data ariannol sensitif yn briodol | • Ymdrin â data sensitif, ariannol, masnachol a phersonol yn briodol |
| • Ymateb i ymholiadau a gohebiaeth am gyllid | • Ymateb i ymholiadau a gohebiaeth am gaffael |

**Bydd y ddwy rôl yn cynnwys cyfrifoldeb am:**

- Reoli gofynion arolygwyr o ran llety gwesty a theithio
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill fel y gallent fod yn rhesymol ofynnol gan reolwyr
- Darparu cymorth ar gyfer Swyddogion Gweinyddol eraill ar y tîm

# Manyleb yr unigolyn

**Mae'n hanfodol bod gennych chi:**

- Fedrau gweinyddol a threfnu cryf, gyda sylw rhagorol i fanylder a chywirdeb.
- Medrau cyfathrebu da yn ysgrifenedig ac ar lafar, gyda'r gallu i feithrin perthnasoedd gwaith effeithiol â chydweithwyr, cyflenwyr a rhanddeiliaid ar bob lefel.
- Gallu i flaenoriaethu tasgau, rheoli gofynion cystadleuol a gweithio'n effeithiol i fodloni terfynau amser mewn amgylchedd prysur.
  Profiad o gynnal cofnodion, data a dogfennau cywir a manwl.
- Gallu i brosesu gwybodaeth yn gywir, nodi materion neu anghysondebau, a chymryd camau priodol i'w datrys.
- Dealltwriaeth o brosesau busnes a phwysigrwydd cydymffurfio, rheolaethau, llywodraethu a gofynion rheoleiddio.
- Medrau TG cryf, yn cynnwys defnydd effeithiol o gymwysiadau Microsoft Office, yn enwedig Excel, Word ac Outlook, a'r gallu i ddysgu am systemau newydd yn gyflym.
- Gallu i gyfleu gwybodaeth yn glir a sicrhau bod gwaith a gwybodaeth yn cael eu cyflwyno'n amserol i gefnogi anghenion busnes.
- Ymwybyddiaeth o risgiau twyll a phwysigrwydd cynnal rheolaethau cadarn, gyda'r gallu i adnabod ac uwchgyfeirio trafodiadau neu weithgarwch anarferol yn briodol.
- Dull sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, gydag ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel.
- Gallu i gydweithio fel rhan o dîm tra'n cymryd cyfrifoldeb am reoli eich baich gwaith eich hun, hefyd.

**Mae'n fanteisiol bod gennych chi:**

- Brofiad o weithio mewn amgylchedd darparu gwasanaethau neu wasanaeth cwsmeriaid
- Eich bod yn gweithio tuag at gymhwyster ariannol, neu'n fodlon dilyn un
- Ymwybyddiaeth fasnachol – egwyddorion cyllidebu a gwerth am arian
- Gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg

## Deallusrwydd Artiffisial

Gall offerynnau deallusrwydd artiffisial (AI) fod yn ddefnyddiol mewn camau amrywiol wrth i chi ymgeisio am swydd. Gallech chi ddefnyddio AI fel offeryn i ymchwilio Estyn a'r swydd yr ydych yn ymgeisio amdani. Gallech chi hefyd ei ddefnyddio i roi trefn ar eich meddyliau, mireinio eich ysgrifennu neu helpu'ch paratoi ar gyfer cyfweliad. Rydym yn awyddus i ddod i'ch adnabod chi fel unigolyn, felly rhaid i chi sicrhau bod cynnwys wedi'i gynorthwyo gan AI yn cynnal eich dilysrwydd.

**Ni ddylech ddefnyddio offerynnau AI i:**

- Orliwio eich cymwysterau
- Camliwio eich profiadau
- Copïo a gludo ymatebion generig heb eu golygu i sicrhau eu bod yn briodol ar eich cyfer chi a'r rôl yr ydych yn ymgeisio amdani

**Sut rydym yn defnyddio AI**

Yn Estyn, gallem ddefnyddio AI i gynhyrchu syniadau ar gyfer Hysbysebion Swyddi, Swydd-ddisgrifiadau, asesiadau, a chwestiynau cyfweliad, ond ni fyddwn byth yn defnyddio offer AI i wneud penderfyniadau am ddethol neu gyflogi.

